cbac
wjec

# Uned 1 Nofel

# Uwch

# (a)

www.xtrapapers.com

# Enghraifft 1

www.xtrapapers.com

6.

a) Yn y nofel Yn y Gwaed gan Geraint Vaughan Jones, Mared ydy'r cymeriad y gallai'r darllenydd uniaethu fwyaf neu cydymdeimlo â, gan ei bod, y rhan fwyaf o'r amser, yn ofalgar am ei brodyr. ☆ ☆

Defnyddia'r Mared i amlygu'r thema o wallgofrwydd yn y nofel sydd yn ein gwneud i ni deimlo drosti gan nad ei bai hi yw ei gwallgofrwydd — "mae'r annaturiol yn creu'r annaturiol". Er nad yw ei gwallgofrwydd efallai mor amlwg â gwallgofrwydd corfforol Y Fo, mae'n cynnig gwallgofrwydd ffurf emosiynol, meddyliol sy'n amlwg i'w brawd, pan dwedai'r bod ganddo "ofn bod Robin pan hi'n dechrau gwallgofi". Gwelir ei anhawster hi'n meddwl yn fwyaf amlwg yn ei dyddiadur yn ystod y misoedd y Gaeaf pan mae hi'n trafod y symudiad gwichian mae ysbryd Dewyrth Ifan yw tad ei babi oherwydd mae ei bresenoldeb "yn drwm ar y lle". Mae hi'n arswydo ac yn poeni wrth feddwl y bydd ei babi yn "erthyl o fab" fel Y Fo, ac nid yw'n gallu goddef meddwl am ddod a babi arall i'r fath ddiwedd sy'n ymwneud â'r "gair ofnadwy" o losgach. Mae hwn yn gwneud i ni gydymdeimlo â Mared gan ei bod yn adnabod nad yw ei theulu yn naturiol ac yn ysu am heddwch meddyliol.

Ffordd arall yr ydym yn cydymdeimlo â Mared yw sut y mae'n amlwg i ni, y darllenydd, cyn pa mor anodd yw ei mamolaeth. Pan welodd Robin Mared ei mamolaeth, pan welodd Robin Mared am y tro olaf, dwedai'r ei bod hi'n rholio "â'r gebennydd", sy'n symbol o farwolaeth yn y nofel gan mai â gebennydd lladdodd Robin ei babi cynhenid ym Mhalmoral. Mae Mared yn cyfaddef yn ymwybodol ei bod yn

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

mynd i farw, a pha mor anobeithiol ydyw i'w rhwystro. Rydym yn gweld hyn wrth ddarllen ei dyddiadur olaf, ble mae'n cyfaddef ei holl theimladau. Dywed ei fod yn "well claddu'r cwbl (y cyfrinachau) a finnau i'w ganlyn", sy'n cyfleu'n eglur bod ei phoen meddyliol, a hawr gorfforol, wedi gwaethygu gymaint nes bod dim pwrpas i'w bywyd rhagor. Y brif reswm yr ydym yn cydymdeimlo gyda Mared yma yw'r rheswm dros ei marwolaeth anochel, sef ei mam. "Hi sydd wedi penderfynu" i orfodi Robin a Mared i lofruddio eu plentyn ac achosi'r fath ddioddefaint meddyliol, a "Hi sydd wedi penderfynu" i ~~[illegible]~~ esgeuluso ei babi newydd ag anwybyddodd i'w phoen corfforol, ac yn fuan ar ôl, ei marwolaeth.

~~A f~~ Er nad yw Robin a Mared o hyd yn Cytuno, mae eu perthynas yn un [illegible] iawn wrth i ni gydymdeimlo â Mared. Mae ei marwolaeth yn arwain Robin i gyflawni hunanladdiad oherwydd ~~[illegible]~~ teimlai nad oes pwrpas i'w fywyd rhagor gan fod Mared oedd "yr unig un gallai droi ato ~~[illegible]~~ Yr unig un erioed". Mae ~~[illegible]~~ 'r diwedd yn adnabod ei wallgofrwydd wrth iddo ddatgan mai "effaith o beth ydi mynd yn wallgo", a diffyg presenoldeb Mared wrth ei ymyl ag arweiniodd at y ~~[illegible]~~ sylweddoliad hwn.
Rydym yn ogystal yn cydymdeimlo â cymeriad Mared, a hyd yn oed yn hapus â'i chymeriad oherwydd ei pherthynas â'i ~~[illegible]~~ ffrindiau, hynny; y Foz "Hi ydy'r unig un sydd yn fodlon mynd â bwyd iddo, ac felly'r unig rheswm ei mae'n garedig: Mae Wil'n teimlo drosto gan ei fod ~~yn~~ fel hithau yn gweld ystyried Dewrydd Ifan sy'n ei "anesmwytho fe", ac felly ceisia i'w llonyddu gan ddweud wrtho bob peb dim yn iawn oherwydd "mae Mared yma".

# Enghraifft 2

www.xtrapapers.com

Question number *Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank *Gadewch yn wag*

6 (a) Mared yw un o'r prif gymeriadau yn 'Yn y Gwaed' gan Geraint V Jones, ac mae'r nofel weithiau'n cael ei roi o'i phersbectif hi. Gallaf gydymdeimlo â Mared ar sawl achlysur, ond ar adegau eraill gallaf gwestiynu fy nghydymdeimlad amdani.

~~Yn~~ ~~Y~~ Yn ~~yr olygfa~~ y pennod cyntaf pan mae Harri-Llwyn-Crwn yn ymweld â Mared ~~a Mam~~ yn Arllechwedd rwy'n cydymdeimlo gyda Mared yn fawr oherwydd bod Mam yn mor anghwrtais. Harri yw cyn-gariad Mared ac nid yw Mam am iddo ail-gychwyn y perthynas gyda Mared, felly mae'n ymddwyn yn annifyr i'w geisio hel o'r tŷ, trwy ddweud "Sham dŵr yn tecall". Mae'n casau Harri trwy ei alw'n "Pry cachu'", ac yn atal Mared rhag ~~ei weld~~ ~~ef~~ ~~eto~~ ~~trwy~~ ~~h~~ drefnu ei weld eto trwy thorri ar ei thraws hi gyda "Mared! Dwi am i ti godi matin yr aelwyd ma!". Cydymdeimlaf llawer gyda Mared oherwydd yn ei dyddiaduer mae'n galw mam yn y 'Gŵr Drwg ei hun' gan ei bod hi'n amlwg yn rheoli ei bywyd hi.

Cydymdeimlaf hefyd gyda Mared am y ffaith ei bod hi'n cael ei chadw yn nhŷ Arllechwedd dan rym Mam, a'i chelu rhag weddill y gymdeithas. Dyma beth sy'n arwain iddi garu Jeff, y mecanig, yn y beudy mawr, oherwydd er nad yw'n ddeniadol o gwbl gyda'i "~~wallt~~ mop o wallt coch" mae'n ysu gymaint am gariad nes ei bod hi'n barod i garu unrhywun. Mae hyn yn swnio'n drist i mi, ac yn pwysleisio pa mor unigig yw'r fferm Arllechwedd (rhedeg ar gyflenwad trydan a dŵr ei hun, yn rhan pellaf y cwm ayyb). ~~Rwyn cydymdeimlo~~ ~~gyda hi tro~~ ~~Ond ar adege~~ ~~Ond nid wyf yn~~ ~~cydymde~~

Nid wyf yn cydymdeimlo'n llawn gyda Mared pan mae'n darganfod ei bod hi'n feichiog oherwydd er ei bod hi'n pryderu, hi a achosodd hynny i'w hun, felly does ganddi neb arall i feio. Ond rwyf yn cydymdeimlo gyda hi pan mae mam yn ei chymhaddo

www.xtrapapers.com

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

i fod yn "hurtan" ac yn "butain" oherwydd dyma agwedd an-sensitif a hurt iawn i'w arddangos i'ch merch eich hun. Rwyn teimlo ~~o~~ trueni drosti felly oherwydd bod Mam yn mor gas iddi. Achlysuron eraill pan mae Mam yn sylwi gyda hi yw pan mae'n ~~rhagfar~~ rhagfarnllyd ohoni, trwy ddweud wrthi: "fama'r wyt ti dy le di, i ofalu am fwyd i fo".

Teimlaf trueni dros Mared gan mai hi sy'n gorfod bwydo fo bob dydd, gan nad yw Mam neu Robin yn barod i wneud hynny. Ond eto ar adegau o hyn nid wyf yn cydymdeimlo â hi oherwydd ei iddi deimlo'n wael bod fo, sef "anifail o beth" (ei brawd hi) yn byw yn y llofft stabal ers hanner canrif - "Rwyn poeni am fo", nid yw hi'n poeni digon amdano i fedru newid ei sefyllfa ef - "ond wiw imi sôn wrth Mam".

Rwyn cydymdeimlo gyda Mared pan mae ~~hi'n~~ hi ar ei gwely angau ar y diwedd, o ganlyniad i Mam yn ~~gw~~ gwthio edyn miniog i fyny ei chroth er mwyn dinistrio'r ffetws sydd wedi datblygu ynddi ar ôl "tri mis". Nid oedd dewis gan Mared ond ufuddhau i Mam oherwydd dywedai mai "bygythio ac arthio oedd ei phethau hi". Pan mae Robin yn ei gweld mae'n welw a does "dim disgleirdeb" yn ei llygaid, felly teimlaf trueni drosti ei bod yn gwaedu i farwolaeth, a neb yn galw'i doctor i ddod i achub ei bywyd. Cydymdeimlaf â hi ~~ar y diwedd~~ hefyd pan mae'r doctor yn dweud ei bod hi wedi marw, ond yn fwy byth pan mae Mam yn bradychu ei merch ei hun ac yn dweud celwydd am sut gwnaeth hi farw - "Awnpo a baglu ar y grisia". Yn amlwg nid oedd ei Mam yn ei pharchu neu ei charu hi, felly dyma pam rwy'n cydymdeimlo gyda hi.

Hefyd pan mae Mared yn gweld ysbryd Dewyth Ifan, e.e. "Ac yna'r oedd! Yn ei gwely!" rwy'n teimlo'n wael drosti, oherwydd efallai mai gweithredoedd y

www.xtrapapers.com

gorffennol gyda Dewyrth Ifan yn "barod ei wên ei anwes i Mared" sy'n ei gwneud hi'n ofn ohono (cafallai ef wedi ei cham-drin hi'n rhywiol), sy'n gwneud iddi ei weld gyda ~~"gwên a~~ "gwên ~~hyll~~ awgrymog, hyll, yn ddannedd i gyd".

Ar y cyfan rwy'n cydymdeimlo gyda Mared trwy gydol y nofel oherwydd ei hamgylchiadau sydd yn cyfrannu at y cymeriad yw hi. Mae'n gwallgofi trwy feddwl mai "Dewyrth Ifan" sydd wedi ei beichiogi hi, ac rwyn cydymdeimlo â hi gan bod y gwallgofrwydd sydd o'i chwmpas (e.e. Fo yn "radu unrhywbeth lloerig") yn dylanwadu ar ei meddylfryd, a does dim modd iddi ddianc rhag gafael Mam. Cydymdeimlaf llawer â hi gan ei bod eisiau dianc rhag Mam a ddim yn hoffi ei chwmni wrth iddi gelu'r gyfrinach am ei beichiogrwydd wrthi trwy "gwrido'n wag".

www.xtrapapers.com

# Enghraifft 3

www.xtrapapers.com

| Question number / Rhif y Cwestiwn | | Leave Blank / Gadewch yn wag |
|---|---|---|
| 4 (a) | Yn sicr, rydw i'n gallu cydymdeimlo gyda Haul y Bore. O o dechrau i diwedd mae angen ar Haul y Bore ddial yn erbyn y Cotiau Glas. Prif rheswm mae eisiau dial ar y Cotiau Glas yw oherwydd y treisiodd Victor Dicks Haul y Bore a lladd ei fab o saith diwrnod mlwydd oed a'i chladdu'i phen ar boncyff. Beth ddigwyddodd i Haul y ~~Bre~~ Bore ar dechrau'r nofel sy'n annog iddi hi, Chico a'i llwythau eraill ~~ea~~ dial ~~ar~~ arnynt. | |
| | Mae cymeriad Haul y Bore yn ddewr a chryf iawn. Mae'n pymtheg mlwydd oed ac yn mynd trwy poen yn barod. Ar ôl i Victor Dicks treisio hi, mae Haul y Bore yn brathu'i wddf ac yn rhedeg i ffwrdd am filltiroedd. Mae hyn yn dangos sut mae Haul y Bore yn amddiffyn ei hun rhag unrhyw beth. Mae Haul y Bore yn caru Chico ond mae'n poeni'n fawr y bydd Chico yn rhoi'r bai arni am Victor Dicks yn lladd Chiquito. Er ei fod hi'n euog mae'n ~~meddwl~~ meddwl gallai wedi gwneud rhywbeth i'w mwyn stop'io beth ddigwyddodd. ~~Roe~~ Nid oedd Haul y Bore'n gallu siarad am ddyddiau, yr oedd hi'n fud a Chico wnaeth gwneud iddi siarad amdano'r digwyddiad. | |
| | Tro arall mae Eirug Wyn yn dangos mae Haul y Bore yn ddewr yw pan mae'n gofyn i'r nicos i ymosod ar y Cotiau Glas o'r ogofau. Er wnaeth ei thad, Manuelito gwrthod hyn, wnaethom ymosod a lladd rhai o'r cotiau Glas ond hefyd, collon rhai o'r Indiaid hefyd. Dywed Haul y Bore "Dyw hi byth yn rhy hwyr lladd y Cotiau Glas". Mae gen Haul y Bore llawer o ffydd a ddewrder. Mae'n amlwg mae'n Indiaid dda gan ei fod ~~hwn~~ hi'n heliwr dda | |

www.xtrapapers.com

Question number
Rhif y Cwestiwn

Leave Blank
Gadewch yn wag

Sy'n amddiffynnol a chryf.

Mae Haul y Bore yn gymeriad anhunanol iawn ac mae'n cael ei ddangos fel hyn yn enwedig yn yr olygfa pan mae Chico'n gofyn i Haul y Bore dod gydag o i Mecsico er mwyn dianc rhag Cwrdod y Faith Faith. Wnaeth Haul y Bore ymddiried i Manuelito y bydd hi'n gofalu am yr hen fenywod ar y daith ac felly, gwrthododd i fynd gydag o. Mae hyn hefyd yn dangos mae'n person y gallwch ~~ymddir~~ ymddiried ynddo a na fyddai'n torri ei ymddiried.

Haul y Bore wnaeth rhoi ei hun o flaen Quanah wrth i Victor Dicks bron a'i lladd. Eto, mae'n dangos cymeriad sy'n ~~anhunanol~~ anhunanol. Sef rhywun rydych yn gallu cydymdeimlo gyda. Fel Chico, mae Haul y Bore yn ddoeth. Mae'n meddwl cyn gwneud pethau sy'n beryglus iawn. Er mae'n euog or y ffaith mae'n lladd ~~a~~ a difrodi'r Cotiau Glas, rydym yn cydymdeimlo gyda hi oherwydd y ffordd mae'r Cotiau Glas yn trin yr Indiaid ac yn bennaf Haul y Bore.

Yn yr olygfa pan mae Haul y Bore yn cael eu lladd, mae Haul y Bore yn dangos ~~pwe~~ ~~Mae~~ pwer. Er mae Haul y Bore yw'r un sydd yn pwyntio'r gwn a at ei hwyneb, Victor Dicks sydd yn tynnu'r trigger ac yn saethu hi. Ond mae Haul y ~~Bore~~ Bore, rwy'n credu yn ofni Victor Dicks oherwydd pan mae'n marw, ~~mae~~ ~~ganddi dull yn a~~ ac mae ganddi dull ar ochr ei phen, mae ganddi gwen fach ar ei hwyneb sy'n rhoi naws sinistr ac ofn. Yn amlwg, mae Haul y Bore yn dangos i Victor

www.xtrapapers.com

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

Dicks ei phwer a'r dial. Gallwn gydymdeimlo gyda ~~Haul~~ Haul y Bore fan hyn gan taw hi oedd y brif gymeriad a hi yw teitl y nofel. Dydy'r nofel ddim yn gorffen yn hapus o gwbl gan bod Haul y Bore yn marw ond rwy'n credu mae'r ffordd mae Haul y Bore'n marw yn apelgar gan mai'n rhoi cymaint o ofn i Victor Dicks, y cymeriad waeth yn y nofel.

www.xtrapapers.com

# Enghraifft 4

www.xtrapapers.com

3.(a) Yn y nofel 'Ac yna clywodd sŵn y môr' gallaf i gydymdeimlo gyda Meredydd oherwydd ei fod wedi cael ei gyhuddo o geisio lladd Gwastad Hir pan maethon o ddim. Mae'r cyhuddiad yn gwneud i lawer o bobl droi yn erbyn Meredydd, hyd yn oed pan mae'r llys yn dweud ei fod yn 'ddieuog' mae rhai dal yn coelio lladd. Mae Meredydd yn fachgen clên a charedig, ond mae'n rhaid iddo geisio gwneud ffrindiau eto gyda pobl fel 'Harri Jôs' sy'n dod yn ffrindiau eto gyda Meredydd 'Neis gweld ti, Meredydd'. Ond mae rhai fel y dyn yn y lle post sydd yn 'taflu' y pethau mae Meredydd yn ei gynnig iddo eto, rydw i'n teimlo trueni dros Meredydd am hyn.

Rheswm arall rydw i'n cydymdeimlo gyda Meredydd yw oherwydd bod y plismyn a barnwr yn trin Meredydd fel baw, heblaw am yr heddwas Gareth Hughes. Yn yr olygfa olaf pan mae Meredydd a Einir yn mynd am dro, mae un o'r plismyn yn dweud i Meredydd 'nigla hi', mae hyn yn 'gynddeiriogi' Meredydd ac mae'n gofyn os ydy nhw wedi bod yn 'dyrnu' a 'cicio' Richard Jones. Mae hyn yn awgrymu bod y plismyn wedi gwneud hyn i Meredydd pan oedd o yn y carchar, mae hyn yn gwneud iddyn deimlo'n drist dros Meredydd ond hefyd yn flin gyda sut mae'r thema o gyfraith yn cael ei gyflwyno yn y nofel.

Rydw i'n cydymdeimlo gyda Meredydd oherwydd bod Gladys Gwaun Goch bob amser yn ei wylio ac yn gwneud hwyl. Pan mae Meredydd yn dod â Einir adre i'w dŷ, mae Gladys yn eu gwylio o'r ffenest ac mae hi'n galw

www.xtrapapers.com

Kinir yn 'hiwen'. Mae Meredydd wedi byw drws nesaf i Gladys yn Maes Coris ers amser hir, mae Gladys yn gwmpfonllyd ac busneslyd, a dydy hi ddim yn hoffi Meredydd. Mae hyn oherwydd pan wnaeth ei gŵr farw (nil), gwnaeth y damwain car gyda rhieni Meredydd ddigwydd hefyd felly bygwth y bai ar ei rieni. Rydw i'n cydymdeimlo gyda Meredydd yn fan hyn gan nad ydy ei fai o ydy o. Hefyd mae Bethan yn gyfrinachol/niedrys i Gladys.

Rheswm arall rydw i'n cydymdeimlo gyda Meredydd yn fod ei rieni wedi cael eu lladd mewn damwain car. Mae'n anodd ei fod heb ddarganfod ei dad tan 'dwy wythnos' ar ôl y ddamwain gan fod y pysgwyr wedi 'stopio edrych'. Rydw i'n cydymdeimlo gan fod y ddau rhiant wedi marw.

Y prif reswm rydw i'n cydymdeimlo gyda Meredydd yw oherwydd ei fod wedi ffeindio rhywun y mae o yn ei garu, ond mae Kinir yn dweud na 'ddo' pan mae o'n gofyn i'w phriodi hi. Y rheswm yw oherwydd ei bod hi wedi 'torri dyweddiad' efo rhywun o Borthmadog i weithio yn 'Yr Eddig'. Ond rydw i hefyd yn teimlo'n hapus dros Meredydd gan fod Kinir yn awgrymu gwneith hi ei briodi yn y diwedd. Mae'r olygfa pan mae'n penderfynu tu allan i dŷ Meredydd, yn dangos faint o ffûn mae Meredydd fod dim wedi digwydd pan bu farw ei rieni, ond mae pawb yna i gwneud am y dyn wnaeth ddwyn gennau.